

Pwyllgor Archwilio – (PA)

Mae CBS Wrecsam wedi ymrwmo i “wneud y pethau iawn y ffordd iawn ar gyfer y bobl iawn mewn modd sy’n amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol”. [Cod Llywodraethu CBSW].

	<p>Mae'r PA yn darparu sicrwydd annibynnol ar amgylchedd rheoli mewnol y Cyngor, sy'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llywodraethu a gwneud penderfyniadau da • Gwella gwerth am arian • Gwella adrodd cyhoeddus ac atebolrwydd • Archwilio a sicrwydd effeithiol • Rheolaeth risg effeithiol • Cyflawni amcanion • Mewnosit gwerthoedd moesol ac atal twyll • Rheolyddion mewnol effeithiol
	<p>Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn disgrifio'r angen statudol am Bwyllgorau Archwilio. Mae Adran 85 o ganllawiau statudol y "Mesurau" yn egluro sut dylai'r PA weithredu.</p> <p>Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi gofynion y Cyngor o safbwynt Archwilio Mewnol, adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a chymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon. Mae'r PA yn sicrhau bod y dyletswyddau hyn yn cael eu perfformio'n effeithiol.</p>
	<p>Mae'r swyddogaethau i'w cyflawni gan y PA wedi eu cynnwys yn Rhan 2, Erthygl 8 o Gyfansoddiad y Cyngor.</p> <p>Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor, unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol i'w lliniaru, a bod llywodraethu'n cefnogi amcanion y Cyngor.</p> <p>Goruchwyllo annibyniaeth, gwrthrychedd, perfformiad a phroffesiynoldeb Archwilio Mewnol</p> <ul style="list-style-type: none"> • chefnogi effeithiolrwydd y broses Archwilio Mewnol • hyrwyddo defnydd effeithiol o Archwilio Mewnol • Ystyried effeithiolrwydd trefniadau Rheoli Risg a'r amgylchedd rheoli. • Adolygu cofrestrau risg a sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cymryd ar faterion sy'n ymwneud â risg, gan gynnwys partneriaethau gyda sefydliadau eraill <p>Monitro effeithiolrwydd trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian, ac am reoli cysylltiad yr awdurdod â risgiau llwgrwobrwyo, twyll a llygredd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyried adroddiadau ac argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac Estyn / AGGCC, eu goblygiadau o ran llywodraethu, rheoli risg a monitro ymatebion rheoli. • Cefnogi perthnasau effeithiol rhwng Archwilio Mewnol a SAC. . <p>Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon blynyddol .</p>
	<p>Mae'n cynnwys 12 Cynghorydd a benodir yn flynyddol ar sail cydbwysedd gwleidyddol gan y Cyngor ac 1 aelod annibynnol a benodir gan y Cyngor am ddwy flynedd o hyd. Mae ganddo Gadeirydd ac Is-Gadeirydd a chynhelir cyfarfodydd fel arfer yn Ystafell Gyfarfod 1 Neuadd y Dref.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid iddo fod yn annibynnol, gwrthrychol ac yn rhydd o unrhyw ddylanwad fel y gellir adrodd i'r rhai sydd â chyfrifoldeb dros lywodraethu o fewn y Cyngor • Mae ganddo hawliau mynediad clir i bwyllgorau eraill e.e. Pwyllgorau Safonau ac Chraffu.
	<ul style="list-style-type: none"> • Nid oes gan y PA unrhyw bwerau i wneud penderfyniadau o dan y Cyfansoddiad. • Ni all ddirprwyo i unrhyw Bwyllgorau eraill ond gall argymhell bod materion yn cael eu hystyried gan Bwyllgorau eraill os ystyrir bod risg sydd angen ei graffu neu ei ymchwilio ymhellach. • Gall gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.
	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r PA yn cwrdd yn rheolaidd a chynhelir o leiaf pedwar cyfarfod bob blwyddyn • Mae'n derbyn adroddiadau uniongyrchol e.e. gan Archwilio Mewnol neu sicrwydd gan ffynonellau eraill e.e. SAC sy'n ei alluogi i ddarparu sicrwydd ar bob elfen o'i Gylch Gorchwyl. • Mae'n cwrdd yn breifat gyda SAC a Phennaeth Archwilio Mewnol a all roi cyfarwyddyd ar unrhyw faterion sy'n disgyn o fewn ei Gylch Gorchwyl. • Mae Swyddogion sy'n mynychu'r PA yn rheolaidd yn cynnwys Pennaeth Cyllid, Pennaeth Archwilio Mewnol, Rheolwr Cyfrifeg, a sefydliadau allanol fel SAC. • Gall y PA alw ar unrhyw swyddogion neu Benaethiaid i gyfrif er mwyn ateb cwestiynau ar faterion sydd o fewn ei Gylch Gorchwyl.
	<p>Mae'r PA yn adrodd yn flynyddol i'r Cyngor Llawn ar ei berfformiad o safbwynt ei Gylch Gorchwyl ac os yw wedi bod yn effeithiol wrth gyflawni ei bwrrpas.</p>
	<p>Mae'r PA yn effeithiol ac yn arddangos llywodraethu da os oes ganddo:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Aelodaeth sy'n gytbwys, gwrthrychol, annibynnol, gwybodus ac wedi ei hyfforddi'n gywir • Aelodaeth sy'n cefnogi egwyddorion llywodraethu da a'u defnydd ymarferol tuag at gyflawni amcanion y Cyngor. • Cadeirydd cryf ac annibynnol ei feddwl/ei meddwl - yn arddangos dyfnder gwybodaeth, sgiliau, a diddordeb. • Agwedd diduedd – yn trin archwilwyr, y weithredol a rheolaeth yn deg.
<p>Mae Bwletinau Archwilio Mewnol yn ymdrin ag amryw o bynciau Am wybodaeth bellach neu i holi am Fwletin Archwilio newydd cysylltwch ag Archwilio Mewnol</p>	